# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 2 Mawrth 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12654

# 56

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 1, 2, 4 a 6 gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog â'r Dirprwy Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Am 13.58, cafodd y trafodion eu hatal dros dro am 1 funud**

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Dechreuodd yr eitem am 14.26

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.11

Atebwyd gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meironydd)** Pa asesiad mae'r Llywodraeth wedi ei wneud o effaith cytundeb masnach y Deyrnas Gyfunol ac Aotearoa (Seland Newydd) ar amaethyddiaeth yng Nghymru?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

The item started at 15.21

Gwnaeth Rhun ap Iorwerth ddatganiad am - Llongyfarch aelodau o Fad Achub RNLI Bae Trearddur a fydd yn derbyn medalau dewrder heddiw. Dyma'r orsaf gyntaf erioed i dderbyn medal dewrder arian, am achubiaeth ar fwrdd bad achub Atlantic 85 dosbarth B (fel arfer dim ond badau achub mawr sydd yn ei derbyn, ond oherwydd difrifoldeb yr achos yma, mae'r RNLI wedi penderfynu ei rhoi i fad achub Bae Trearddur).

## 5 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod: Alun Davies (Blaenau Gwent) - effaith gorlifoedd stormydd

Dechreuodd yr eitem am 15.23

**NDM7833** Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i leihau effaith andwyol gorlifoedd stormydd.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) gosod dyletswydd ar ymgymerwr carthffosiaeth y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru i sicrhau gostyngiad cynyddol yn effaith andwyol gollyngiadau o orlifoedd stormydd yr ymgymerwr;

b) lleihau effeithiau andwyol gollyngiadau carthion ar yr amgylchedd ac ar iechyd y cyhoedd;

c) ei gwneud yn bosibl i'r ddyletswydd ar ymgymerwr carthffosiaeth gael ei gorfodi gan Weinidogion Cymru neu gan yr Awdurdod gyda chydsyniad awdurdodiad cyffredinol a roddir gan Weinidogion Cymru, neu'n unol â hynny.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Gwneud Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl banc

Dechreuodd yr eitem am 15.58

**NDM7932** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu y dylai Dydd Gŵyl Dewi fod yn ŵyl banc.

**Cyd-gyflwynwyr**

Lesley Griffiths (Wrecsam)

Siân Gwenllian (Arfon)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Cefnogwyr**

Natasha Asghar (Dwyrain De Cymru)

Peter Fox (Mynwy)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Plaid Cymru - Anhwylderau bwyta

Dechreuodd yr eitem am 16.39

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7934** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod Wythnos Ymwybyddiaeth Anhwylderau Bwyta 2022 yn digwydd rhwng 28 Chwefror a 6 Mawrth 2022.

2. Yn nodi Adolygiad o Wasanaeth Anhwylderau Bwyta Llywodraeth Cymru 2018 ac adolygiad diweddar Beat, Adolygiad Gwasanaeth Anhwylder Bwyta yng Nghymru – 3 Blynedd yn Ddiweddarach.

3. Yn credu bod gwelliannau mewn gwasanaethau anhwylderau bwyta yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi bod yn anwastad, gan barhau â'r annhegwch a nodwyd yn yr adolygiad.

4. Yn gresynu at y ffaith bod triniaeth i'r rhai yr effeithir arnynt yng Nghymru yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar oedran, diagnosis a lleoliad.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymrwymo i gynyddu'r adnoddau a ddyrennir i iechyd meddwl o flwyddyn i flwyddyn yn ystod y pum mlynedd nesaf a dwyn byrddau iechyd i gyfrif am eu buddsoddiad mewn gwasanaethau anhwylderau bwyta;

b) cyhoeddi fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta sy'n cynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni targedau, gan ganolbwyntio ar:

i) ymyrraeth gynnar ac atal;

ii) gofal integredig;

iii) cymorth i deuluoedd a gofalwyr eraill;

iv) buddsoddi yn y gweithlu, gan gynnwys cymorth ar gyfer lles staff;

c) ailsefydlu a chynnal arweinyddiaeth glinigol dros ddarparu gwasanaethau anhwylderau bwyta ar lefel genedlaethol;

d) ariannu archwiliad clinigol anhwylderau bwyta i sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn casglu ac yn adrodd ar set safonol a chynhwysfawr o ddata o ansawdd uchel.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 40 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Lesley Griffiths (Wrecsam)]

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod darparu gwasanaethau anhwylderau bwyta sy'n diwallu'r ystod o anghenion yn her; bod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar wasanaethau; a bod angen gwneud gwelliannau.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymrwymo i barhau i wella gwasanaethau anhwylderau bwyta ledled Cymru, gyda mwy o fuddsoddiad i gefnogi hyn;

b) cryfhau'r arweinyddiaeth glinigol sydd ei hangen i yrru'r gwelliannau.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

pennu targedau a chyhoeddi ystadegau misol ar amseroedd aros ar gyfer triniaeth iechyd meddwl, gan gynnwys materion fel anhwylderau bwyta

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gan fod y Senedd wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 17.32 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol cyn y Cyfnod Pleidleisio.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.35

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.39

**NDM7933** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Chwaraeon yng Nghasnewydd: cefnogi clybiau a digwyddiadau chwaraeon cymunedol yn y ddinas.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.02

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2022**